

Perchennog/Meddiannydd

Fy Nghyf/My Ref:

IF103 /

Eich Cyf/Your Ref:

Dyddiad/Date:

Annwyl Syr/Fadam

**Terfyn Cyflymder 20mya a Mesurau Arafu Traffig. Heol-y-Mynydd, Bryn Hedd, Heol-y-Grug, Heol-y-Glyncoed, Bryn Hyfryd a Heol-y-Bryn - Hendreforgan.**

Fel y byddwch chi wedi clywed, mae'r Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad yn ddiweddar ar gynigion i gyflwyno mesurau arafu traffig a therfyn cyflymder o 20mya yn Hendreforgan.

Cafodd manylion y cynigion eu hanfon at 292 o drigolion a chafodd 79 o ymatebion eu derbyn. O'r ymatebion hyn, roedd dau yn gwrthwynebu'r cynllun ac roedd y gweddill yn cefnogi'r cynllun.

Yng ngoleuni'r ymatebion a gafodd eu derbyn, rydyn ni wedi cytuno i fwrw ymlaen â'r cynllun sydd wedi'i gynnig. Y cam nesaf ydy cyfnod o Rybudd Cyhoeddus sy'n nodi manylion y cynnig cyn inni ei weithredu. Dyma gyfle ichi godi unrhyw bryderon sydd gyda chi'n ffurfiol. Os ydych chi eisiau gwrthwynebu'r cynnig yma, gnewch hynny drwy ysgrifennu llythyr erbyn xx Ionawr 2019, at y Rheolwr Traffig, Uned Materion Rheoli Traffig, Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU, neu anfonwch e-bost i [GwasanaethauTraffig@rctbc.gov.uk](mailto:GwasanaethauTraffig@rctbc.gov.uk).

Yn ogystal â'r cynllun uchod, gofynnodd nifer o ymatebwyr am gyflwyno mesurau arafu traffig wrth fynedfa'r ystad. Mae'r broses ar gyfer dylunio a gosod cynlluniau arafu traffig yn cael ei llywodraethu gan ganllawiau dylunio sy wedi'u penu gan yr Adran Drafnidiaeth. Mae'r canllawiau yma yn cynghori na ddylai mesurau lleihau cyflymder gael eu gosod yn agos at gyffyrdd neu droadau dall.

Rydw i'n gobeithio y bydd yr uchod o gymorth, ond os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir



Andrew McGowan  
Uwch Beiriannydd, Materion Rheoli Traffig  
Senior Engineer, Traffic Management


Tŷ Sardis/Sardis House  
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU  
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001  
Ffacs/Fax: 01443 490414

**Chris Lee C.P.F.A**  
Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen | Group Director, Corporate and Frontline Services

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhwch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.  
We welcome correspondence in Welsh and responding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



Owner / Occupier

**Fy Nghyf/ My Ref IF103/ AMC**

**Dyddiad / Date : 23 January 2019**

Dear Sir / Madam

**20mph Speed Limit and Traffic Calming Measures. Heol-y-Mynydd, Bryn Hedd, Heol-y-Grug, Heol-y-Glyncoed, Bryn Hyfryd and Heol-y-Bryn - Hendreforgan.**

As you may be aware, the council recently consulted on proposals to introduce traffic calming measures and a 20h speed limit in Henndreforgan.

Details of the proposals were sent to 292 residents and 79 responses received. Of the responses received, two objected to the scheme and the remainder supported the scheme.

In view of the responses received , it has been agreed to proceed with the scheme as proposed. The next stage in the process is a period of Public Notice of the proposals, where details of the scheme are advertised to provide opportunity for members of the public to formally raise any concerns they may have. If you wish to object to the proposals, you should do so in writing by 13 February 2019 to the Traffic Manager, Traffic Management, Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU or alternatively by email at [trafficservices@rctcbc.gov.uk](mailto:trafficservices@rctcbc.gov.uk)

Further to the above, a number of respondents asked that traffic calming measures be introduced at the entrance to the estate. The design and installation of traffic calming schemes are governed by design guidelines set by the Department of Transport. These guidelines advise that speed reduction measures should not be provided near blind bends or junctions.

I trust the above is of assistance, however if you require any further information please do not hesitate to contact me.

Yours sincerely



Andrew McGowan  
Uwch Beiriannydd, Materion Rheoli Traffig  
Senior Engineer, Traffic Management

**Tŷ Sardis/Sardis House**  
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU  
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001  
Ffacs/Fax: 01443 490414

**Chris Lee C.P.F.A**  
Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen | Group Director, Corporate and Frontline Services

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.  
We welcome correspondence in Welsh and responding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

